



## Genevieve Hopkins

*Teitl PhD:* **Archwilio datblygiad a gweithrediad model newydd sydd yn cyfuno iechyd a gofal cymdeithasol**

*Dyddiad dechrau:* **Ionawr 2021**

*Dyddiad gorffen disgwylidig:* **Rhagfyr 2023**

*Goruchwylwyr:* **Diane Seddon, Ceryl Teleri Davies**

*Cyllidwr:* **KESS2, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Community Wellness Company**

### Fy nghefnidir

Rwyf wedi bod yn ymchwilydd ers dros 20 mlynedd. Dechreuais mewn ymchwil marchnata, yna symudais i ystadegau cymdeithasol yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn fwy diweddar, roeddwn yn fethodolegydd yn SYG yn gweithio ar arolygon economaidd mewn dylunio holiaduron a data. Yn dilyn BSc o Brifysgol Loughborough mewn Polisi Cymdeithasol a Gweinyddu, cefais MSc mewn Dulliau Ymchwil Busnes o'r Brifysgol Agored. Fy mhrif ddiddordeb yw methodolegau ymchwil a sut i'w cymhwyso.

### Fy ymchwil

Mae fy PhD yn cynnwys cymhwyso methodoleg realaidd i fath newydd o fodel rhagnodi cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Drwy ddatblygu theori rhaglen sy'n cynnwys ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid, byddaf yn gwerthuso'r model ac yn gwneud awgrymiadau ar 'yr hyn sy'n gweithio, i bwy, o dan ba amgylchiadau'. Yn ogystal, byddaf yn cymhwyso egwyddorion Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad i fesur ynysu cymdeithasol, elfen nad yw yn cael eu dadnsoddi gan ddatganiadau ariannol. Bydd canlyniadau fy ymchwil yn cael eu defnyddio i wella'r model a'i alluogi i gael ei gyflwyno ledled y DU.

### Manylion cyswllt

Genevieve Hopkins

[gnh21snl@bangor.ac.uk](mailto:gnh21snl@bangor.ac.uk)